Swyddog Sicirhau Ansawdd Mewnol – Iechyd Gofal & Chymdeithasol

Bandiau cyflog: £31,000 - £35,000

Lleoliad: Caerdydd

Contract: Llawn-amser, parhaol

Oriau Gwaith: Dydd Llun I Ddydd Gwener 09:00y.b I 16:30y.p

Amdanom ni

Yn Itec, rydym yn rhoi ein gweithwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Fel sefydliad sy'n eiddo i'r gweithwyr, mae pob aelod o'r tîm yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio dyfodol ein busnes. Rydym yn meithrin diwylliant lle mae pob llais yn cael ei glywed, a lle mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Rydym yn ymfalchïo mewn grymuso unigolion a busnesau i ffynnu. Ymunwch â ni a dewch yn rhan o gwmni sy'n ymroddedig i'ch twf, lles a llwyddiant.

Ynglŷn â'r rôl

Arwain, ysgogi a datblygu tîm o Aseswyr i wella ansawdd y ddarpariaeth ar draws pob rhaglen ddysgu, gan sicrhau addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel i bob dysgwr. Cyfrifol am sicrhau bod prosesau Sicrhau Ansawdd Mewnol y cwmni yn drylwyr ac yn arwain at welliant parhaus, gwell boddhad dysgwyr a chyfraddau llwyddiant ar draws y tîm.

Eich effaith

- Cyfrifol am ysgogi a datblygu tîm o Aseswyr i sicrhau bod gan ddysgwyr brofiad dysgu cadarnhaol, bod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni a goruchwylio sut mae ein haseswyr yn cynllunio, ymarfer ac adolygu.
- Cyfrifol am ddatblygu tîm o Aseswyr i wella ansawdd y ddarpariaeth ar draws pob rhaglen ddysgu.
- Sicrhau disgwyliadau'r fframwaith cyfan a chynghori aseswyr ar gamau gweithredu priodol.
- Monitro ac adrodd ar berfformiad aseswyr i'r Prif IQA a gweithio mewn partneriaeth â'r Rheolwr Perfformiad, gan gefnogi cynllunio datblygu a gweithredu cynlluniau gwella wedi'u targedu lle bo angen.
- Sicrhau bod Aseswyr yn ymgysylltu â chyflogwr y gweithle drwy gydol y profiad dysgu.
- Cyfrifol am reoli gweithgareddau samplu a gwirio i wella dilyniant a chyflawniad dysgwyr
- Cyfrifol am sicrhau bod pob gweithgaredd Ansawdd Mewnol yn diwallu anghenion y dysgwyr yn barhaus, yn rhagori ar ofynion Sefydliadau Dyfarnu, MEDR Estyn ac Itec

- Cyfrifol am sicrhau bod Aseswyr yn ymgorffori themâu trawsbynciol Diogelu/Atal, ADCDF, Cymru'r Iaith a Diwylliant, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Iechyd a Diogelwch/Lles
- Cyfrifol am gwblhau adroddiadau Ansawdd Mewnol, yn glir, wedi'u hysgrifennu'n dda a chyda digon o fanylion i gefnogi a gwella perfformiad
- Cymryd rhan mewn a/neu reoli ymweliadau Ansawdd Mewnol i sicrhau bod yr amserlen ymweliadau yn cael ei dilyn, bod pob portffolio gofynnol yn cael ei gyflwyno ac yn bodloni'r safonau gan arwain at ymweliad cadarnhaol

Beth ydym ni'n chwilio amdano?

Hanfodol

- Cymhwyster Asesydd ac IQA
- Cymhwysedd galwedigaethol perthnasol
- Profiad o ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth
- Trwydded yrru lawn gyda defnydd o'ch cerbyd eich hun
- Gwybodaeth fanwl am raglenni Prentisiaeth gan gynnwys gofynion fframwaith, prosesau IQA a dulliau asesu
- Gwybodaeth fanwl am ofynion Sefydliadau Dyfarnu
- Gwybodaeth fanwl am ofynion Arolygu Estyn

Dymunol

- Profiad a hanes profedig o arwain tîm o Asesu Ansawdd Mewnol
- Profiad o gydlynu ymweliadau Asesu Ansawdd Mewnol
- Wedi bod yn rhan weithredol o Arolygiad Estyn

Beth sydd ynddo i chi?

Yn Itec, mae gan ein gweithwyr fynediad at nifer o fuddion gwych, gan gynnwys 30 diwrnod o wyliau blynyddol (yn codi gyda hyd gwasanaeth), cynllun gofal iechyd, 35 awr o wythnos waith, gostyngiadau ar gyfer aelodaeth manwerthu a champfa, cynllun rhannu elw, yswiriant bywyd, gwobrau gweithiwr y mis, cydnabyddiaeth hyd gwasanaeth, a llawer mwy.

Mae Itec yn gweithredu fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd, anabledd, neu nodweddion gwarchodedig eraill.

Gwnewch gais yn gynnar, gan y gallwn gau'r swydd wag unwaith y bydd gennym ddigon o ymgeiswyr addas. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddatgelu unrhyw anghenion am addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio neu yn eu rôl i helpu i greu gweithle cynhwysol.

Os na fyddwch yn clywed gennym 2 wythnos ar ôl gwneud cais, cymerwch yn ganiataol nad oedd eich cais yn llwyddiannus ar yr achlysur hwn.

Os ydych chi'n angerddol am ddatblygu eraill a gwneud gwahaniaeth, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!